**ATODIAD 5**

# CYNNAL ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

**YR ARGYMHELLION A GYFLWYNIR I BWYLLGOR CRAFFU CYNGOR GWYNEDD AR DDYFODOL CARTREF PRESWYL HAFOD Y GEST, PORTHMADOG**

## 1) AWDUR (ON) YR ASESIAD

*Wyn M Hughes, Rheolwr Ymgysylltu, Gwasanaethau Cymdeithasol ar ran Pennaeth yr Adran Dai a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd.*

## 2) PARTNERIAID

Nodwch unrhyw rai eraill sydd angen eu cynnwys fel rhan o'r broses asesu: Gall hyn gynnwys staff rheng flaen, sefydliadau partner, arbenigwyr maes ayb.

*Bwrdd Cyngor Gwynedd – sydd wedi gwneud y penderfyniad i ymgynghori ar ddyfodol cartref Hafod y Gest..*
*Pennaeth yr Adran Dai a Gwasanaethau Cymdeithasol - a wnaeth yr argymhelliad i'r Bwrdd i ymgynghori ar ddyfodol cartref Hafod y Gest*
*Pennaeth yr Adran Darparu a Hamdden - sydd yn cefnogi'r defnyddwyr a'r staff.*
*Pwyllgor Craffu Gofal, Cyngor Gwynedd sydd yn craffu cynnwys yr adroddiad ar yr ymgynghoriad ac yn cynnig sylwadau cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i Fwrdd Cyngor Gwynedd.*

## 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

*22 Chwefror, 2011 (dyddiad penderfyniad Bwrdd y Cyngor i ymgynghori ar ddyfodol cartref Hafod y Gest)*

## 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

*11 Hydref, 2011 (dyddiad Bwrdd y Cyngor fydd yn penderfynu ar ddyfodol cartref Hafod y Gest)*

## 5) PERTHNASEDD

Dylai hyn amlinellu beth yw perthnasedd y polisi/ gwasanaeth/ swyddogaeth i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb. Efallai na fydd perthnasedd i bob un, ond os canfyddir perthnasedd, yna bydd gofyn bwrw ymlaen gyda'r Asesiad

**5a) Perthnasedd i'r Dyletswyddau Cyffredinol**

***Gwelwyd bod perthnasedd i bob un o'r Dyletswyddau Cyffredinol.***

- **Hyrwyddo cydraddoldeb yn bositif**

*Byddai disgwyl i wasanaeth preswyl ar gyfer pobl hŷn hyrwyddo cydraddoldeb drwy barchu hawliau ac annibyniaeth defnyddwyr y gwasanaeth.*

- **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth**

*Y mae pob darparwr gofal preswyl yn dilyn ac yn cydymffurfio gyda Pholisi a Chanllawiau Amddiffyn Oedolion Bregus Gogledd Cymru*

- **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal**

*Byddai disgwyl i wasanaeth preswyl i bobl hŷn hyrwyddo cydraddoldeb drwy barchu hawliau ac annibyniaeth defnyddwyr y gwasanaeth.*

- **Meithrin perthnasau da**

*Yn ystod y cyfnod ymgynghori gwnaed cais i gael ymateb budd-ddeiliaid ac fe'i hyrwyddwyd i fynegi eu barn a'u dyheadau. Y mae'r gwasanaeth presennol a ddarperir yng nghartref Hafod y Gest ag enw da iawn yn y gymuned leol oherwydd ansawdd a safon y gofal. Golyga hyn fod y gwasanaeth presennol wedi meithrin perthynas dda gyda'r gymuned leol. Y mae'r un potensial yn bodoli ar gyfer y Tai Gofal Ychwanegol i feithrin perthynas debyg gyda'r gymuned ym Mhorthmadog***.** *Wrth ddatblygu unrhyw brosiect o'r newydd bydd y Cyngor yn sicrhau cydymffurfiaeth a'r Dyletswyddau Cyffredinol ac yn parchu anghenion y defnyddwyr (gweler 12 isod)*

**5b) Perthnasedd i wahanol elfennau cydraddoldeb**

- **Hil**

*Cymraeg neu Saesneg yw iaith gyntaf y sawl sydd a neu sydd wedi mynegi diddordeb. Roedd yr holl fudd-ddeiliaid o gefndir gwyn Prydeinig.*

- **Rhyw** (yn cynnwys trawsrywiol, mamolaeth a beichiogrwydd)

*O ran y defnyddwyr roedd y mwyafrif yn ferched a'r mwyafrif llethol o'r staff yn ferched*

- **Anabledd**

*Nifer o'r defnyddwyr gwasanaeth gydag anableddau amrywiol megis problemau cof a chyflyrau megis arthritis sydd yn gwneud symudedd yn anodd.*

- **Yr iaith Gymraeg**

*Cymraeg neu Saesneg yw iaith y budd-ddeiliaid.*

- **Cyfeiriadedd rhywiol**

*Nid ydym yn ymwybodol fod cyfeiriadedd rhywiol unrhyw un o'r defnyddwyr yn berthnasol i'r argymhelliad ac ni chodwyd unrhyw faterion yn ymwneud a chyfeiriadedd rhywiol fel rhan o'r ymgynghoriad*

- **Crefydd neu gred**

*Nid ydym yn ymwybodol fod crefydd neu gred unrhyw un o'r defnyddwyr yn berthnasol i'r argymhelliad ac ni chodwyd unrhyw faterion yn ymwneud a chrefydd na chred fel rhan o'r ymgynghoriad*

- **Oedran**

*Pobl Hŷn sydd yn cael eu heffeithio gan yr argymhelliad.*

**6) NOD AC AMCANION Y POLISI / GWASANAETH / SWYDDOGAETH**

Nodwch pam fod angen y polisi a beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

*Y mae tryloywder yn angenrheidiol yn y broses o wneud penderfyniadau o fewn y Cyngor, gan ystyried barn y bobl sydd yn cael eu heffeithio. Y mae pwysau ar y Cyngor i ystyried yr angen i drawsnewid y gwasanaeth ar gyfer pobl hŷn. Mae Tai Gofal Ychwanegol yn cynnig cyfleoedd amgenach i bobl hŷn i barhau i gadw eu hannibyniaeth gyda'r sicrwydd fod cefnogaeth wrth law pe bo ei angen. Rhaid esbonio a dangos nad yw'n gynaliadwy i'r Cyngor gynnal gwasanaeth preswyl traddodiadol sydd angen gwariant sylweddol arno i'w gynnal i safon ddisgwyliedig yn ogystal â Chynllun Tai Gofal Ychwanegol mewn ardal o boblogaeth gymharol fychan. Rhaid ystyried hefyd bod nifer o wlâu preswyl yn wag mewn cartrefi preswyl o fewn dalgylch o 15 milltir i Borthmadog.*

*Mae'r cynnig yn ymateb i'r ddau factor benodol yma: Yr angen hyrwyddo annibyniaeth (yn unol â dymuniad pobl hyn -gweler 8) isod) a'r angen i ddarparu gwasanaethau sy'n gynaliadwy at y dyfodol*

**7) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD**

Pa gyfranogiad ac ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y polisi / gwasanaeth / swyddogaeth a beth oedd y canlyniad?

1. *Paratoi a rhannu pecyn gwybodaeth am yr ymgynghoriad sydd yn nodi'r cefndir ac yn gosod y sefyllfa yn ei gyd-destun.*
2. *Cyfarfodydd unigol gyda'r defnyddwyr a'u teuluoedd.*
3. *Darpariaeth adfocatiaeth annibynnol ar gael i'r defnyddwyr.*

4. *Cyfarfodydd gyda'r staff.*
5. *Cefnogaeth yr Adran Adnoddau Dynol ar gael i gefnogi'r staff.*
6. *Cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol gyda chyrff a mudiadau statudol a gwirfoddol sydd â diddordeb yn y sector gofal.*
7. *Cynnal deialog gyda'r cynrychiolwyr etholedig.*
8. *Rhannu gyda'r budd-ddeiliaid (y defnyddwyr, eu teulu agos, y staff a'r Cynghorwyr lleol) yr argymhellion a gyflwynir i'r Pwyllgor Craffu Gofal a Bwrdd y Cyngor ar yr un pryd ac y maent yn dod yn wybodaeth gyhoeddus.*

**8) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL**

Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol neu genedlaethol, ar fonitro ar ymgynghori, sylwadau staff ayb

*Y mae pob ymchwil i'r maes llety ar gyfer pobl hŷn yn dangos mai adref yn eu cartrefi eu hunain mae pobl hŷn eisiau bod. Yn lleol mae darn o waith (O Lygad y Ffynnon, Einir Roberts 2010) yn cadarnhau hyn. Fe adlewyrchir hyn yng nghanlyniadau'r ymgynghoriad gyda'r mwyafrif yn cytuno gyda bwriad Cyngor Gwynedd i ddarparu gwasanaethau i gefnogi pobl i fyw yn eu cartrefi. Y mae Tai Gofal Ychwanegol yn cynnig yr opsiwn hwn ond gyda'r sicrwydd bydd cefnogaeth ar gael pe byddid ei angen. Rhaid cyd bwyso hyn gyda'r farn a adlewyrchir yn yr holiaduron fod y mwyafrif am gadw cartref Hafod y Gest ar agor.*
*Roedd 79.7% o'r farn y dylid buddsoddi yng nghartref Hafod y Gest. 11.3% oedd o blaid yr ail opsiwn sef buddsoddi i ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol a gwasanaethau cymunedol i gefnogi pobl i fyw gartref ond cau'r cartref presennol. Ni chafwyd ymateb gan9% o'r rhai ymatebodd. Amgaeir atodiad 1 sef canlyniad yr ymgynghoriad.*

**9) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH**

Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth a sut y caiff y rhain eu llenwi

*Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar ddyfodol cartref Hafod y Gest nid oedd gwybodaeth am y Tai Gofal Ychwanegol ar gael. Yr oedd ansicrwydd ynglŷn â lleoliad y cynllun a'r dull o ariannu. Er bod yr ymgynghoriad yn rhoi pob cyfle i fynegi barn, gellir dadlau nad oedd yn broses cyflawn, gan nad oedd manylion llawn am yr opsiynau ar gael. Rhaid unioni hyn drwy sicrhau fod ein cyswllt a'r defnyddwyr yn gwbl glir a thryloyw wrth ddatblygu'r cynllun ymhellach*

**10) BETH YW'R EFFAITH WIRIONEDDOL NEU DEBYGOL**

**10 a) O safbwynt y grwpiau cydraddoldeb**

- **Hil**

*Nid ydym yn rhagweld bydd yr argymhelliad yn achosi mwy o bryder nac*

*effaith fwy negyddol i un grŵp nac un arall. Ni chodwyd unrhyw faterion yn ymwneud a hil fel rhan o' ymgynghoriad.*

- **Rhyw**

*Fe fydd yr argymhelliad yn achosi pryder i'r staff ac mae pob un ohonynt heblaw am un dyn yn ferched. Mae posibilrwydd y gallent golli eu swyddi presennol.*
*Fe fydd cefnogaeth ar gael drwy Adran Adnoddau Dynol, Cyngor Gwynedd.*
*Y mae mwyafrif o'r defnyddwyr hefyd yn Ferched.*
*Y mae tystiolaeth felly y byddai cau cartref Hafod y Gest yn cael mwy o effaith ar ferched na dynion. Yn sicr yn y tymor byr effaith negyddol fyddai hyn.*

- **Anabledd**

*I'r defnyddwyr gwasanaeth (mae'r rhan fwyaf ohonynt gyda chyflwr sydd yn achosi anabledd) gall canlyniad yr argymhelliad ac unrhyw benderfyniad gan Fwrdd y Cyngor fydd yn dilyn, olygu eu bod yn gorfod symud o'u cartref. Bydd angen cydbwyso'r effaith negyddol yma yn erbyn manteision hirdymor y Tai Gofal Ychwanegol a'r goblygiadau ariannol o gynnal cartref Hafod y Gest ochr yn ochr â 'r Tai Gofal Ychwanegol. Y mae tystiolaeth felly y byddai cau cartref Hafod y Gest yn cael effaith negyddol yn y tymor ar y bobl sydd ag anabledd.*

- **Yr iaith Gymraeg**

*Fe fydd y gwasanaeth gofal yn y Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn cael ei gomisiynu gan y Cyngor ac felly gellir gwarantu bydd y gwasanaeth a gynigir yn dewis iaith y defnyddiwr unigol. Ni does tystiolaeth y byddai cau cartref Hafod y Gest yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg.*

- **Cyfeiriadedd rhywiol**

*Nid ydym yn rhagweld bydd yr argymhelliad yn achosi mwy o bryder i un grŵp nac un arall. Ni chodwyd unrhyw faterion yn ymwneud a chyfeiriadedd rhywiol yn ystod yr ymgynghoriad.*

- **Crefydd neu gred**

*Nid ydym yn rhagweld bydd yr argymhelliad yn achosi mwy o bryder i un grŵp nac un arall. Ni chodwyd unrhyw fater yn ymwneud a chrefydd neu gred yn ystod yr ymgynghoriad.*

- **Oed**

*I'r defnyddwyr gwasanaeth sydd i gyd yn bobl hŷn gall yr argymhelliad a phenderfyniad Bwrdd y Cyngor fydd yn dilyn golygu eu bod yn gorfod symud*

*o'u cartref.*
*Bydd angen cydbwyso'r effaith negyddol yma yn erbyn manteision hirdymor y Tai Gofal Ychwanegol a'r goblygiadau ariannol o gynnal cartref Hafod y Gest ochr yn ochr â'r Tai Gofal Ychwanegol. Y mae tystiolaeth felly y byddai cau cartref Hafod y Gest yn cael effaith negyddol yn y tymor byr ar bobl hŷn.*

**10b) O safbwynt y Dyletswyddau Cyffredinol**

- **Hyrwyddo cydraddoldeb yn bositif**

*Bydd yr argymhelliad yn hyrwyddo cydraddoldeb yn bositif, hanfod y cynllun Tai Gofal Ychwanegol yw hybu annibyniaeth a lleihau dibyniaeth defnyddwyr gwasanaeth ar ofalwyr. Rhaid cofio mai manteision hirdymor fydd y rhain: dengys yr ymgynghoriad fod cau'r cartref yn achosi pryder i'r preswylwyr*

- **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth**

*Drwy weithredu'r argymhelliad bydd rhaid cymryd camau rhagweithiol er mwyn sicrhau bod y newid mor esmwyth â phosib.*

- **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal**

*Bydd yr argymhelliad yn hyrwyddo cydraddoldeb yn bositif, hanfod y cynllun Tai Gofal Ychwanegol yw hybu annibyniaeth a lleihau dibyniaeth defnyddwyr gwasanaeth ar ofalwyr. Unwaith eto, rhaid cofio mai manteision hirdymor fydd y rhain*

- **Meithrin perthnasau da**

*Y mae'r Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn cynyddu'r potensial i'r defnyddwyr feithrin perthynas da a'i gilydd a'u cymuned. Wrth weithredu'r argymhellion, rhaid sicrhau ein bod yn cynnwys ac yn ymateb i anghenion pob unigolyn. Bydd hyn yn cael ei amlinellu'r llawn fel rhan o waith y Tîm Prosiect a'r Cynllun Gweithredu*

**11) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH**
(Gall fwy nag un canlyniad fod yn berthnasol i'r polisi)

**Canlyniad 1: Dim newid mawr**
Mae'r Asesiad yn dangos nad oes potensial am gamwahaniaethu nac effaith andwyol. Achubwyd ar bob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb

**Canlyniad 2: Addasu'r Polisi**
Mae'r Asesiad yn nodi problemau posib; dylid addasu'r polisi i ddileu rhwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well

**Canlyniad 3: Parhau a'r Polisi**
Os oes potensial ar gyfer effaith andwyol neu golli cyfleoedd, dylid nodi'n glir beth yw'r cyfiawnhad dros barhau

*Y mae perygl fod yr argymhelliad yn mynd i greu ansicrwydd a phryder. Bwriad y Cyngor yw symud tuag at wasanaeth sy'n galluogi pobl i fyw mor annibynnol â phosib, wrth gynnig cefnogaeth yn unol â'u gofynion er mwyn esmwytho pryderon tymor hir. I'r dyfodol, bydd angen osgoi'r sefyllfa a gododd fel rhan o'r ymgynghoriad ar ddyfodol Hafod y Gest, lle'r oedd peth ansicrwydd ynglŷn â'r trefniadau amgen*

**Canlyniad 4: Rhoi'r gorau i'r polisi a'i ddileu**
Os yw'r polisi'n dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosib, rhaid rhoi'r gorau iddo a'i ddileu neu ei newid

## 12) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU

*Mae'r Tîm Prosiect yn cyfarfod yn wythnosol i fonitro'r gwaith ac mae'r Bwrdd Prosiect yn cyfarfod yn fisol. Bydd ystyriaeth lawn yn cael ei roi i anghenion pob defnyddiwr ac i Ddyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb ac i ofynion Cynllun Iaith y Cyngor drwy gydol y broses*

## 13) CYNLLUN GWEITHREDU

Dylid atodi Cynllun Gweithredu sy'n cynnwys y camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlen, ac amlinelliad o'r trefniadau adolygu a gwerthuso

*Pe byddai Bwrdd Cyngor Gwynedd yn derbyn yr argymhelliad bydd cynllun gweithredu yn cael ei baratoi a'i weithredu gan y Bwrdd Prosiect.*

## 13) PENDERFYNU

***Cafodd yr asesiad hwn ei dderbyn a'i gymeradwyo gan Gwen Carrington, pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cyngor Gwynedd ac Uned Gydraddoldeb ac Iaith Cyngor Gwynedd. Cyflwynir i Bwyllgor Craffu Gofal ac i Fwrdd y Cyngor***